Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Paul Matthews
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fynwy
Blwch PO106
Caldicot
NP26 9AN

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Matthews

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Mae'n glir o'ch ymateb eich bod wedi meddwl gryn dipyn am hyn a'ch bod wedi canolbwyntio'n gryf ar y canlyniadau rwy'n ceisio eu sicrhau ar ran pobl hŷn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac

‘annerbyniol’ yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu’n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i’r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai’n rhannol neu’n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â’r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni’r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu’r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â’r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai’n rhoi’r lefel sicrwydd rwy’n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae’n ofynnol imi gadw cofrestr o’r ymatebion i’m Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy’n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â’r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i’n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi’r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o’r camau sydd ar eu hanner a’r camau y mae’r cyrff unigol sy’n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’m Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Fynwy

Cam Gofynnol 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dangos yn ei ymateb fod ei ddarparwyr wedi cadarnhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i breswylwyr pan fydd materion diogelu yn codi; serch hynny, nid yw'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Mae'r ymateb yn dweud bod angen i rai darparwyr sicrhau ei bod yn cael ei wneud yn fwy eglur yn y llenyddiaeth a ddarperir i breswylwyr a darpar breswylwyr bod y gwasanaeth hwn ar gael. I bob golwg, nid yw'r Awdurdod Lleol yn rhagweithiol yn hyn o beth ac er bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael, mae'n destun pryder nad yw darparwyr yn mynd ati'n frwd i gynnig y gwasanaethau hyn nac yn annog eu defnyddio.

Mae'r Awdurdod Lleol yn mynd i'r afael â phrif bwyntiau'r Camau Gofynnol i ryw raddau; serch hynny, nid yw'r ymateb yn dangos yn llwyr ei fod yn deall eiriolaeth yn ei hystyr ehangaf. Er ei fod yn deall y gwahanol fathau o eiriolaeth mae'n ymddangos nad yw'r Awdurdod Lleol ond yn gweld yr angen am wasanaethau eiriol ar adeg argyfwng neu gŵyn.

Gellid gwella'r ymateb petai'r Awdurdod Lleol yn diffinio'i ddyletswydd yn glir i sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei darparu o dan y ddeddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth sydd ar ddod, ac i rwystro unrhyw darfu posibl ar hawliau dynol pobl hŷn. Yn ogystal, gellid gwella'r ymateb drwy ddadansoddi'r ddarpariaeth bresennol ac unrhyw gynllun gweithredu sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael â bylchau a diffygion, sy'n cynnwys amserlen glir, enwi swyddogion atebol a rhoi sicrwydd y bydd y Cam Gofynnol yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd.

Cam Gofynnol 2.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r cam gofynnol hwn yn dweud, pan fydd angen gwasanaethau arbenigol sy'n gysylltiedig â iechyd ar breswylwyr, y bydd y rhain yn dal i fod o dan ofal y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn ymddangos fel petai'n ildio rheolaeth i'r Bwrdd Iechyd ac nid yw'r ymateb, i bob golwg, fel petai'n cydnabod manteision cydweithio i sicrhau ansawdd gofal preswylwyr. Mae angen eglurhad.

Er bod yr ymateb hefyd yn dweud bod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu dull integredig wrth ddarparu gwasanaethau gofal, gellid ei wella drwy roi datganiad diffiniol yn dweud beth mae'r gwasanaeth yn ei olygu'n ymarferol.

Gellid gwella'r ymateb drwy werthuso'r ddarpariaeth bresennol ac unrhyw gynllun gweithredu sydd wedi'i anelu at fynd i'r afael â bylchau a diffygion, sy'n cynnwys amserlen glir, enwi swyddogion atebol a rhoi sicrwydd y bydd y Cam Gofynnol yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd.

Cam Gofynnol 3.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.2 Bydd holl weithwyr cartrefi gofal yn cael hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu a bydd pob aelod o'r staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn dilyn rhagor o hyfforddiant dementia'n barhaus i ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, a bydd hyn yn elfen benodol o'u goruchwyliaeth ac asesu eu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant sylfaenol ym maes dementia ac mae'n dweud bod darparwyr Awdurdodau Lleol i gyd wedi sicrhau bod trefniadau hyfforddi priodol wedi'u rhoi ar waith, gan ateb gofynion ymsefydlu a datblygu parhaus. Serch hynny, ni roddwyd manylion penodol am yr hyn mae'r hyfforddiant yn ei olygu nac ychwaith ym mha fodd mae'n bodloni Cam Gofynnol y Comisiynydd.

Cydnabyddir y diffygion i ryw raddau yn yr ymateb, ac mae'r Awdurdod Lleol yn dweud y bydd yn mynd i'r afael â "gwendidau" yn y ddarpariaeth bresennol; serch hynny, nid yw'r Awdurdod Lleol yn nodi beth yw'r gwendidau hynny'n benodol.

Croesewir y ffaith fod yr ymateb yn cyfeirio at ddatblygu templed newydd a fydd yn ymgorffori dilysu perfformiad drwy fonitro ymweliadau a meini prawf trefn hunanasesu ansawdd blynyddol; ond byddai disgrifiad clir o'r canlyniadau a ragwelir i bobl hŷn ac enwi swyddog atebol yn gwella'r ymateb hwn. Yn ogystal â hyn, mae gofyn i'r Awdurdod Lleol ddarparu sicrwydd y bydd y Cam Gofynnol hwn yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd.

Cam Gofynnol 3.3

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

3.3 Dylid mynd ati'n benodol i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn

cartrefi gofal, gan gynnwys prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, a helpu preswylwyr i gynnal eu perthynas â chyfeillion. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gallu parhau i gael cymorth sy'n seiliedig ar eu crefydd a chymorth gan gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos ei fod yn deall y cynlluniau cyfeillio sydd ar gael yn y sir a'u hyd a'u lled. Mae'r ymateb yn dweud bod bron yr holl ddarparwyr wedi eu hasesu eu hunain yn rhai sy'n cydymffurfio â chynorthwyo preswylwyr i gynnal cyfeillgarwch sydd ganddynt eisoes a'u bod yn sicrhau bod modd iddynt gael gafael ar gymorth gan gymunedau ffydd a chymunedau diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol yn dweud y bydd ei brosesau monitro cytundebau yn cynnwys dilysu'r hunanasesiadau hyn. Mae'r ymateb yn mynd yn ei flaen i ddangos er bod rhai gwasanaethau yn ymroi i annog cyfeillio neu gynlluniau "cyfaill...", bod angen i eraill weithio'n galetach. Mae'r Awdurdod Lleol yn dangos y bydd yn annog hyn drwy gyfrwng cyfarfodydd Fforwm Darparwyr.

Croesewir y ffaith fod potensial i gynnal gwasanaethau cyfeillio ledled y sir drwy ddefnyddio Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Er mwyn cydymffurfio â'r Cam Gofynnol, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu monitro cytundebau'n rheolaidd er mwyn adolygu cynnydd darparwyr o ran cyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

Cam Gofynnol 5.6

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

5.6 Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a

thrawsffurfiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.
Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad i sefydlu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol ac mae'n dweud y bydd hyn yn adeiladu ar gydweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd ac AGGCC

Mae'r Awdurdod Lleol yn dangos ei gefnogaeth i'r Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol ac mae'n dweud ei fod yn edrych ymlaen at helpu i'w ddatblygu

Cam Gofynnol 6.2

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn i bob golwg yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd gwrando ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod y materion a godir yn cael sylw.

Mae'r ymateb yn dangos bod holl arferion yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r Cam Gofynnol hwn yn seiliedig ar "beth sy'n bwysig i'r unigolyn." Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu trafod â phobl hŷn a gwrando arnynt gan drosi hyn yn ganlyniadau ystyrlon.

Mae’r ymateb hefyd yn dangos bod fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn asesu effaith gwasanaethau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Hanfod hyn yw siarad â defnyddwyr gwasanaethau.

Mae’r Awdurdod Lleol yn dweud ei fod wedi annog darparwyr i gynnwys disgrifiadau o sut y bydd eu gwasanaeth yn sicrhau canlyniadau sy’n canolbwyntio ar unigolion yn eu Datganiad o Ddiben. Gellid gwella’r ymateb drwy roi enghreifftiau o sut mae’r newidiadau hyn wedi gwella’r canlyniadau i bobl hŷn.

Mae’r Awdurdod Lleol yn dweud bod ei ddarparwyr yn ei sicrhau eu bod yn cydymffurfio ar hyn o bryd; serch hynny, gellid gwella’r ymateb drwy roi sicrwydd am gywirdeb yr honiad hwn a’i gynaliadwyedd.

Cam Gofynnol 6.7

Casgliad Cychwynnol – Derbyniol

6.7 Bydd Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a rhai'r Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- yr Eiriolaeth Annibynnol sydd ar gael mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gynnwys cyfeiriad penodol at bobl hŷn sy'n byw gyda dementia a/neu nam ar y synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ledled yr Awdurdod Lleol
- barn pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg am ansawdd bywyd ac ansawdd y gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylid cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion adrodd yn rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos cefnogaeth mewn egwyddor; serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod angen rhagor o drafodaeth ac eglurhad er mwyn osgoi dyblygu a gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Mae'r ymateb yn nodi hefyd bod angen eglurhad ynglŷn ag ystod a chwmpas ystyriaethau hawliau dynol.

Er gwaethaf ei amheuon, serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i weithio ar hyn a symud ymlaen i ddatblygu Datganiadau Ansawdd Blynyddol.

Atodiad 1:

Cyngor Sir Fynwy, cwestiynau a godwyd

Cam Gofynnol 6.7

Cwestiwn: Rydym yn cefnogi hyn mewn egwyddor ond yn credu bod angen rhagor o drafodaeth ac eglurhad; yn enwedig wrth ystyried cyfrifoldeb AGGCC i reoleiddio a sicrhau ansawdd y gofal mewn cartrefi gofal ac osgoi dyblygu neu'r posibilrwydd o asesiadau'n croes-ddweud ei gilydd. Byddem yn croesawu barn y Comisiynydd yn y cyswllt hwn. Mae angen rhywfaint o eglurhad hefyd ynglŷn ag ystod a chwmpas yr ystyriaethau hawliau dynol. Mae'n debyg mai'r ddau fater mwyaf perthnasol yw Amddifadu Pobl o'u Rhyddid a goblygiadau Erthygl 14 ar gyfer y rheini sydd ag asedau sy'n uwch na therfyn y trothwy. Efallai fod gan y Comisiynydd asesiad ehangach dan sylw ac mai dyna sydd angen ei egluro.

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â chyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gan y Comisiynydd ddisgwyliadau clir ynglŷn â'r wybodaeth a gyhoeddir gan Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y parth cyhoeddus am sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i bobl hŷn gael yr hawl i weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am ansawdd y bywyd a'r gofal a ddarperir gan gartrefi gofal unigol ac ynddynt. Barn y Comisiynydd yw bod angen bod yn fwy agored a thryloyw ynglŷn ag ansawdd cartrefi gofal ledled Cymru.

Nid bwriad y Cam Gofynnol yw dyblygu ymdrechion â phrosesau eraill, ond yn hytrach mae wedi'i gynllunio i fod yn rhan anhepgor o'r ymdrechion angenrheidiol i wella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn

cartrefi gofal yng Nghymru. Bwriedir i'r Camau Gofynnol eraill, gan gynnwys y rhai a gyfeiriwyd at AGGCC, ategu ei gilydd, megis Cam Gofynnol 6.9 sy'n cynnwys gofynion adrodd yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Awdurdod yn awgrymu bod angen egluro sut y bydd y Cam Gofynnol hwn yn rhyngweithio â gwaith parhaus arall, ac yn dweud ei fod yn dymuno cael eglurhad ynghylch sut y mesurir hawliau dynol. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl y bydd Awdurdodau Lleol yn arwain wrth ddatblygu a gweithredu'r Cam Gofynnol hwn. Gan hynny, byddai'r Comisiynydd yn annog eich Awdurdod i gysylltu â phob Awdurdod Lleol, ac â chyrff priodol eraill ynglŷn â'r drefn adrodd a hefyd faterion penodol o ran mesur. Efallai y bydd eich Awdurdod am godi hyn gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hwyluso camau gweithredu.